

CYLCHGRAWN AR GYFER FFERMIO A CHOEDWIGAETH YNG NGHYMRU

cyswllt FFERMIO



FARMING
connect
cyswllt
FFERMIO

08456 000 813

Ansawdd Colostrwm

Bwydo colostrwm o safon uchel
i leihau problemau iechyd

Partneriaeth Mentro

Llwyddiant cyd-fenter ar gyfer
Fferm Gwernant yn Llandysul





Un o uchafbwyntiau'r flwyddyn i mi yw'r Arwerthiant Hyrddod Cymreig blynyddol yn Nhregaron. Mae rhyw ias yn yr arwerthiant bob amser a'r cylch wedi ei amgylchynu â phrynwyr. Roedd y gwerthu eleni yn adlewyrchu'r teimlad yn y diwydiant; er bod yno ddigonedd o brynwyr roedd teimlad amlwg o bwyll â'r prynwyr yn sicrhau nad oeddent yn gwario gormod wrth brynu.

O ystyried hynny rydym yn dal i geisio creu dulliau mwy effeithlon a chael y cynhyrchiant gorau, er enghraifft fe wasgarwyd 270 tonn o galch ac rydym wedi dechrau ymdrin â'r caeau lle mae diffyg P a K.

Prosiect eleni gyda Cyswllt Ffermio oedd treialu pori cylchdro ar y borfa ucheldir sydd gennym ar 1,250 troedfedd. Rhannwyd dau gae oedd yn 11.7ha i gyd yn 9 padog (6 x 1ha a 3 x 1.9ha) a dosbarthwyd mamogiaid ac ŵyn iddynt. Mae'r cyfanswm o laswellt sydd wedi tyfu yn y system wedi gwneud argraff fawr arnom ac mae wedi cadw 163 mamog ac efeilliaid hyd eu diddyfno a 400 o ŵyn benyw wedyn. Cawsom hefyd 35 o fymau o 'haylage' oddi ar un o'r padogau a'r unig wrtaith a wasgarwyd oedd 1.8 tonn o 20-10-10 yn gynnar ym Mai.

Yn yr un modd â phopeth arall mae'n fater o gael y cydbwysedd cywir, gyda lloches yn

broblem mewn tywydd garw, ac mae peth gwelliannau i'w gwneud i'r cyflenwad pŵer a'r system ddŵr. Mae hefyd angen cadw llygad ofalus ar y baich o lyngyr ac ar eu traed, ond mae hyn yn cael ei drechu gan y cynnydd posibl yn y gyfradd stocio.

Mae'r mamogiaid ar eu rownd olaf erbyn hyn gyda digon o laswellt o'u blaenau, mae'r estyniad hwn i'r tymor pori yn fantais ychwanegol i bori cylchdro ar fferm lle nad ydym yn gweld fawr iawn o dyfiant am bedwar mis yn y gaeaf.

Trwy fonitro a chofnodi pwysau yn gyson rydym wedi dynodi mai'r cyfnod ar ôl diddyfno yw'r gwendid yn y system. Er bod gennym ddigon o laswellt eleni mae tyfiant yr ŵyn wedi arafu am gyfnod o chwe wythnos ac ar y cyd â Cyswllt Ffermio rydym yn bwriadu sefydlu prosiectau eraill y tymor nesaf yn canolbwyntio ar leihau'r arafu ar ôl diddyfno trwy ymchwilio i elfennau hybrin, iechyd ac ansawdd y borfa.

Mae'r hyrddod wedi bod yn rhedeg gyda 1,100 o famogiaid ac mae 55 o fuchod yn gyfno, felly bydd digon i'n cadw yn brysur yn y gwanwyn. Trwy gadw llai o stoc ar y fferm ar yr adeg yma o'r flwyddyn mae gennym gyfle i wneud y gwaith cynnal a chadw ar y fferm, a gobeithio y cawn fynd i'r Ffair Aeaf.

Gwerth pwysu ŵyn yn gyson

Mae pwysu ŵyn bob pythefnos yn cael ei werthuso fel dull o gynyddu profffidoldeb y ddiadell ar un Safle Ffocws Cyswllt Ffermio, Fferm Birchfield ger Llandrindod, lle mae diadell o ddefaid Mynydd Cymreig a defaid croes Llyn yn cael eu magu i gynhyrchu ŵyn tew ac ŵyn benyw Miwl.

Oherwydd pryderon am eu cyfnod pesgi yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf, mae'r prosiect Cyswllt Ffermio hwn yn edrych ar werth y wybodaeth y gellir ei gasglu wrth bwysu ŵyn bob pythefnos o'u diddyfno hyd at y farchnad.

Y nod yw defnyddio'r wybodaeth yma am gyfraddau tyfu'r ŵyn i gael:

1. Gwell rheolaeth ar bori e.e. pa mor aml i symud ŵyn a hyd delfrydol y borfa
2. Gwell amseru ar gyfer triniaethau rheoli llyngyr
3. Gwell targedu wrth brofi e.e. am lyngyr yr iau neu elfennau hybrin
4. Gwell rhagweld ar batrymau gwerthiant ŵyn ddiwedd yr haf ac yn yr hydref er mwyn cynllunio'r pori a llif arian y busnes
5. Gwell dealltwriaeth o'r newidiadau sy'n angenrheidiol yn y ddiadell famogiaid i wella cyfraddau tyfu ŵyn y flwyddyn nesaf



Cychwynnodd y prosiect ganol Awst ac mae'r canlyniadau eisoes wedi dangos, er bod graddfa'r tyfiant ar gyfartaledd i'r ŵyn yn dderbyniol, roedd braidd gormod o'r ŵyn lleiaf dan 30kg erbyn diwedd Medi. Ar y pwynt hwn newidiodd pwyslais y prosiect i gynnwys rheoli mamogiaid i baratoi at yr ŵyna yn 2018. Trwy weithio gyda milfeddyg y fferm, roeddent wedi gweld bod cael y cychwyn gorau posibl i'r ŵyn yn elfen bwysig o gael y pwysau mwyaf wrth diddyfno'r ŵyn y flwyddyn nesaf a lleihau'r amrywiaeth o ran perfformiad yr ŵyn. Rhoddwyd sgôr cyflwr corff i'r mamogiaid a dyrannwyd gwell porfa iddynt i dargedu sgôr delfrydol o 3 i 3.5 wrth eu troi at yr hwrdd. Bydd y sgôr yn cael ei chynnal trwy'r gaeaf hyd at ŵyna. Trwy fonitro sgôr cyflwr corff y mamogiaid yn fisol hyd at ŵyna gellir cynllunio eu gofynion porthiant yn well. Bydd hyn yn caniatáu i'r dulliau rheoli ar y ddiadell gael eu newid yn brydlon.

Er mwyn dilyn cynnydd y prosiect hwn cadwch llygad ar y blogiau ar wefan Cyswllt Ffermio.

<https://businesswales.gov.wales/farmingconnect/cy/rhwydwaith-arddangos>

Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â Catherine Nakielny:
catherine.nakielny@menterabusnes.co.uk / 01970 631 406

ANSAWDD COLOSTRWM

Mewn digwyddiad 'O'r Llo i Lloia' AHDB a Cyswllt Ffermio yn ddiweddar trafodwyd pwysigrwydd rhoi colostrwm o safon uchel a lleihau'r risg o fod yn agored i facteria a heintiad gyda phrotocolau glendid cadarn ar y fferm i sicrhau cyfraddau twf cynnar a lleihau problemau iechyd fel ysgôth a niwmonia. Mae colostrwm yn hanfodol i'r llo newydd-anedig gan ei fod yn cynnwys gwrthgyrff (*a elwir hefyd yn immunoglobulins neu IgG*) i roi imiwnedd, a hefyd mae'n llawn o faetholion hanfodol i roi egni i dyfu. Mae hefyd yn hanfodol cadw at y 3 "S":

SWM - Yr argymhelliad yw rhoi 3 litr o golostrwm gyntaf i loeau neu 10% o bwysau eu cyrff. Dylid dilyn hyn wedyn cyn pen 12 awr gyda thua'r un faint.

SAFON - Mae colostrwm o ansawdd da yn cynnwys o leiaf 50g/litr o IgG. Ni ddylid defnyddio unrhyw golostrwm sy'n cynnwys llai na 20g/litr. Er mwyn sicrhau ei fod o'r safon uchaf, mae angen i'r buchod a heffrod fod yn ffit ac iach yn yr wythnosau cyn lloea, a'u bwydo yn briodol ac yn cyrraedd y targed o ran sgôr cyflwr corff, sef 3.5.

SYDYN - Mae'n bwysig i'r lloeau gael eu colostrwm cyntaf cyn gynted â phosibl ar ôl eu geni, yn ddelfrydol cyn pen 2 awr.

Un dull o sicrhau bod y lefelau IgG cywir a'r colostrwm gorau yn cael ei roi i loeau newydd eu geni cyn gynted â phosibl yw defnyddio 'Brix Refractometer' sy'n asesu'r colostrwm ar unrhyw dymheredd. Dull arall yw defnyddio 'Hydromedr colostrwm' sy'n darllen yr ansawdd fwyaf cywir pan fydd tymheredd y colostrwm yn 22oC ac felly bydd problemau ymarferol wrth geisio rhoi colostrwm o safon uchel yn gyflym.

Bydd defnyddio'r offer yma hefyd yn tanlinellu unrhyw wahaniaethau neu ddiffygion o ran ansawdd rhwng colostrwm heffrod a buchod. Os bydd prynu neu ddefnyddio un o'r dyfeisiadau yma yn anymarferol, efallai y bydd yn well trafod gyda'ch milfeddyg lleol a all gynnal prawf i chi.



Ffynhonnell: AHDB Dairy - 3 Q's of Colostrum Factsheet, AHDB Dairy - Testing Colostrum Quality Factsheet

Gellir mesur faint o wrthgyrff yn y colostrwm sydd wedi eu trosglwyddo yn llwyddiannus o'r fuwch i'r llo trwy brawf gwaed gan eich milfeddyg.

Am ragor o wybodaeth cysylltwch gyda eich milfeddyg lleol.

Bydd **AHDB** a **Chyswllt Ffermio** yn cynnal cyfres o ddigwyddiadau 'O'r Llo i Lloia' yng Ngogledd Cymru dros y misoedd nesaf a fydd yn edrych ar agweddau o reoli heffrod a chael y cyfraddau tyfu gorau.

Am ragor o wybodaeth am y digwyddiadau hyn cysylltwch â **Rhys Davies**:
rhys.davies@menterabusnes.co.uk
07985 379880

Diweddariad Prosiect Porfa Cymru Hydref/Gaeaf 2017

Wrth i dymor glaswellt 2017 ddirwyn i ben i fwyafrif ffermydd Prosiect Porfa Cymru, bydd y sylw yn awr yn troi tuag at wanwyn 2018. Er mwyn i wartheg ddefnyddio glaswellt o safon uchel yn gynnar yn y tymor, mae'n bwysig cyrraedd y cyfartaledd gorchudd a ddymunir o 2,050 kgDM/ha gan y gall gormod o laswellt dros y gaeaf arwain at dyfiant salach yn y rownd gyntaf o bori'r flwyddyn ganlynol, a bydd rhy ychydig yn golygu y bydd angen ategu ato a throï allan yn hwyrach. Rhaid i ffermwyr ystyried y bydd gaeafau mwynach yn golygu y bydd peth tyfiant dros y gaeaf.

Gyrrodd y tywydd cynnes a gwlyb yn ystod Medi a Hydref gyfraddau tyfu da iawn o rhwng 50-60kgDM/ha y dydd gyda rhai ffermydd yn dal i gael dros 70kgDM/ha y dydd. Ond, gan ei bod yn gymylog a thywyll arweiniodd at werthoedd siwgr ac ME is mewn llawer o borfeydd. Achosodd y tywydd gwlyb ar ddechrau Hydref broblemau i lawer o'r ffermydd ar briddoedd trymach a oedd â digonedd o orchudd ond oedd yn ei chael yn anodd pori'n lân a gadawyd gweddillion ar y cae ac achoswyd difrod i'r ddaear.

Mae Tabl 1 yn dangos pa mor anodd y gall fod i gael cyfraddau tyfu da wrth geisio pori a chadw cyfartaledd y gorchudd ar y fferm i lawr.

Tabl 1. Twf a gorchudd yr hydref ar fferm Gelli Aur, Safle Arloesedd Cyswllt Ffermio

Dyddiad mesur	Cyfradd dyfu ddyddiol kgDM/ha y dydd	Cyfartaledd Gorchudd y Fferm kgDM/ha
06/09/17	79.2	2,775
12/09/17	44.4	2,770
19/09/17	40.6	2,546
28/09/17	53.3	2,608
03/10/17	74.5	2,641
11/10/17	27.8	2,734

Mae rhai ffermydd wedi ceisio cael toriad silwair yn hwyr ym mis Hydref i dynnu'r gorchudd uchel hwn allan o'r cylchdro, ond arweiniodd y cyfnod byr o dywydd addas neu'r diffyg tywydd o gwbl at weld llawer yn ei bori neu yn derbyn y ffaith y bydd y silwair o ansawdd salach. Dylid defnyddio'r gorchudd ychwanegol gan greu'r niwed lleiaf posibl i'r pridd a'r porfa. Gellid gwneud hyn trwy ymestyn y pori i heffrod blwydd i baratoi ar gyfer 2018.

Am ragor o wybodaeth ewch i
businesswales.gov.wales/farmingconnect/cy/prosiect-porfa-cymru

Amaethgoedwigaeth/ Ffermio Da Byw

DYFODOL FFERMIO

Bydd mabwysiadu technolegau newydd yn ein helpu i ddod yn fwy effeithlon a chynhyrchiol a nod y Ganolfan Cyfnewid Gwybodaeth yw helpu ffermwyr i ganfod pa dechnolegau ac arferion a all fod o gymorth. Gellir gweld rhagor o wybodaeth ac erthyglau ar yr ymchwil diweddaraf ar wefan Cyswllt Ffermio.

AMAETHGOEDWIGAETH

Mae amaethgoedwigaeth yn caniatáu defnydd tir amlbwrpas, a all fod o fudd i gynhyrchu bwyd a thanwydd, diogelu'r amgylchedd a bioamrywiaeth, a gadael i ffermydd addasu i effeithiau newid hinsawdd neu liniaru'r effeithiau hynny.

Trwy gyflwyno coed i'r systemau amaethyddol sy'n bodoli fel sefyllfa glaswelltir-da byw, mae'n bosibl gwella: bioamrywiaeth - lles anifeiliaid - potensial cynhyrchu bwyd - iechyd a defnyddioldeb y pridd - cynhyrchu cynydu cysylltiedig - storio a neilltuo carbon.


Mae egwyddorion amaethgoedwigaeth felly yn cynnig sefyllfa realistig ar gyfer dull mwy integredig o reoli ffermydd yn y dyfodol, a all gynnal neu wella potensial cynhyrchu, gan ddiogelu ffermydd rhag effaith posibl newid hinsawdd.

FFERMIO DA BYW MANWL GYWIR (PLF)

Mae Ffermio Da Byw Manwl Gywir (PLF) yn defnyddio technolegau mewn systemau da byw sy'n cynnig cyfleoedd ar gyfer datblygu cynaliadwy. Gall mabwysiadu'r technolegau newydd hyn, fel y rhai sy'n gysylltiedig â godro, monitro a phorthi fod yn fanteisiol o ran budd economaidd a lleihau'r baich gwaith. Ond, gall effaith y technolegau hyn, mewn rhai enghreifftiau, gynyddu pwysau ar ffermwyr; er enghraifft, rheoli systemau larwm a rhoi blaenoriaeth i achosion sydd angen ymyrraeth. Gall gweithredu technoleg newydd gael effaith negyddol ar y berthynas rhwng pobl ag anifeiliaid trwy leihau'r amser y mae'n rhaid i'r ffermwr ei dreulio yn trin yr anifeiliaid. Ond dangoswyd bod anifeiliaid yn addasu'n gyflym i dechnoleg newydd sy'n rhoi mwy o ryddid iddynt hyd yn oed. Mae defnyddio technolegau manwl gywir yn moderneiddio'r proffesiwn ffermio a rhaid cyflawni cydbwysedd rhwng manteision economaidd a gwella ansawdd bywyd. Mae gan PLF y potensial i gynorthwyo'r ffermwr wrth reoli'r fferm o ddydd i ddydd ond yn y pen draw ni all ddisodli gwybodaeth a phrofiad y ffermwr.

Am fwy o wybodaeth ewch i -

businesswales.gov.wales/farmingconnect/cy/canolfan-cyfnewid-gwybodaeth



Ffermwyr defaid o Ogledd Cymru yn targedu marchnadoedd newydd diolch i raglen Agrisgôp Cyswllt Ffermio

Mae'r ffermwr Alan Jones, sy'n drydedd genhedlaeth ar y fferm, ei wraig Bethan a'u dau fab Osian a Morgan yn ffermio daliad 230 erw yn Chwilog. Yn ddiweddar sefydlodd y teulu fenter newydd yn cynhyrchu llaeth mamogiaid ar gyfer cawsiau o'u diadell gymysg o 20 o famogiaid Friesland ac wyth o famogiaid Llyn ac maent yn dweud na fyddent wedi mentro heb gefnogaeth rhaglen Agrisgôp Cyswllt Ffermio.

Mae Agrisgôp yn rhaglen ddysgu rheoli weithredol sy'n cefnogi grwpiau o unigolion o'r un meddylfryd i ddatblygu syniadau ar gyfer busnesau neu fentrau newydd.

Roedd eu harweinydd Agrisgôp, Geraint, yn ymwybodol bod nifer o gynhyrchwyr defaid lleol yn ei ardal eisoes yn ymchwilio i ffyrdd o ychwanegu gwerth at eu mentrau defaid mewn cyfnod sydd, i lawer o ffermwyr, yn amser heriol ac ansicr iawn.

"Yn amgylchedd caeedig grŵp Agrisgôp sy'n cael ei hwyluso, mae ffermwyr o'r un meddylfryd yn gwerthfawrogi'r cyfle i siarad â'i gilydd yn agored, i weithio trwy sialensiau a phroblemau ac i gynyddu ymddiriedaeth gyda ffermwyr eraill trwy ddatblygu perthynas waith a chyfeillgarwch personol," dywedodd Geraint.

I Alan ac Osian, roedd ymuno â grŵp Geraint yn rhoi cefnogaeth a chyfarwyddyd gan gynhyrchwyr defaid eraill ac roedd yn allweddol i roi'r hyder iddynt i ymchwilio ymhellach i'r farchnad ac arallgyfeirio i gynhyrchu llaeth defaid. Yn ogystal, gwnaeth eu hymweliad â chwmni adnabyddus Halen Môn, eu dysgu am bwysigrwydd ychwanegu gwerth i gynnyrch craidd a llunio brand.

Mae Alan yn cofio'r dyddiau cynnar hynny pan oedd y ffermwyr yn cyfarfod gyntaf i gael eu cyfarfodydd misol.

"Er bod rhai ohonom yn gyndyn i ddechrau i rannu syniadau ac ymddiried yn ei gilydd, fe wnaethom ddysgu yn fuan iawn faint o wybodaeth oedd gennym yn y grŵp, ac roedd yn glir y gallem gefnogi a dysgu oddi wrth ein gilydd heb gyfyngu ar ein cyfle i lwyddo'n unigol. Mae gweithio mewn grŵp Agrisgôp yn rhoi hyder i chi gymryd y camau anodd a heriol cyntaf hynny sydd yn rhaid i chi i sefydlu menter newydd, ar adeg pan mae llawer o ffermwyr yn teimlo yn unig ac yn agored i risg," dywedodd Alan.


I ddarllen yr erthygl yn llawn ewch i dudalennau Agrisgôp ar wefan Cyswllt Ffermio.

businesswales.gov.wales/farmingconnect/cy/agrisgôp

Rheoli gwartheg magu sych dros y gaeaf

Gan mai porthiant a deunydd o dan y gwartheg yw'r ddwy gost fwyaf all amrywio wrth gynhyrchu mewn system fagu, mae maint y fuwch aeddfed, cyflwr ei chorff a hyd y gaeaf yn cael effaith fawr ar y gost gaeafu.

Gall buwch fagu fawr 700kg sy'n lloea yn y gwanwyn, mewn cymhariaeth â buwch ganolig 600kg dros gyfnod o 150 diwrnod yn y gaeaf fwyta 450kg o borthiant ychwanegol. Gan fod silwair clamp yn costio £22/t mae hyn yn gyfanswm o £990 i fuches o 100 o wartheg magu. Trwy dargedu sgôr cyflwr corff o 3.0 wrth ddiddefnu, gall buwch fforddio colli 0.5 o'i chyflwr corff dros y gaeaf mewn modd sydd wedi ei reoli i loea ar sgôr o 2.5. Byddai hyn yn cyfateb i ostyngiad o 35kgLW neu yn fras 1,500 MJ o egni dietegol trwy ddefnyddio'r braster wrth gefn a bwyta dogn i'w cynnal.



Mae nifer o wahanol ddewisiadau i ffermwyr i'w hystyried wrth ffurfio dogn i fuwch sych. Gall y rhain fod yn ddieta ar sail naill ai silwair, gwellt neu wair ond rhaid bod yn ofalus eich bod yn sicrhau bod digon o brotein sy'n treulio yn y rwmn effeithiol (ERDP) ar gael i gynhyrchu digon o brotein microbaidd yn y rwmn. Fel rheol gyffredinol bydd microbau'r rwmn angen 9% o brotein craidd i bob kilogram o gynnwys sych a fwyteir a mwynau da i fuwch fagu o 100-150g y pen y dydd.

Tabl 1. Enghreifftiau o ddieta posibl

DIET	SILWAIR (kg y pen) @ £22/tFW	GWELLT (kg y pen) @ £85/tFW	GWAIR (kg y pen) @ £100/tFW	BARLYS (kg y pen) @ £119/tFW	BLAWD HADAU RËP (kg y pen) @ £181/tFW	Cost y pen y dydd yn fras
1	17 (wedi ei gyfyngu)	4.5				75p
2		9.5 (yn ôl awydd bwyd)		1.0	1.5	£1.23
3			9.5 (yn ôl awydd bwyd)		0.5	£1.05

Ffynhonnell: AHDB Feeding suckler cows and calves, BRP manual 5 enghraifft o ddieta buwch sych, ar sail silwair (30% DM/kg, 10.6MJ ME/kg DM), gwellt (6.3MJ ME/kg DM) neu wair (8.5MJ ME/kg DM), wedi ei borthi i fuwch fagu 650kg yn lloea yn y gwanwyn, wyth wythnos cyn lloea ac yn colli 0.25kg y dydd

Mae gwybod gwerth maethol porthiant a roddir i fuchod yn allweddol wrth roi dogn effeithiol i fuchod i fodloni gofynion egni a phrotein yn effeithiol, paratoi cyflwr y fuwch cyn lloea a gostwng costau porthi o bosibl.

Mae gan Gwion Owen, Hendre Arddwyfaen, sef un o safleoedd ffocws Cyswllt Ffermio, ddiddordeb mewn edrych ar ffyrdd effeithlon o borthi a dogni ei fuchod magu ar ôl eu sychu dros y gaeaf. Bydd yr ymgynghorydd bîff, Robert Logan, SRUC yn gweithio gyda Gwion a Cyswllt Ffermio a bydd diweddariadau'r am y prosiect a newyddion am ddigwyddiadau agored ar gael ar ein gwefan dros y misoedd nesaf.



Dychwelyd at ei gwreiddiau, merch fferm yn mynd yn ôl i ddatblygu fferm deuluol gyda chefnogaeth Cyswllt Ffermio

Doedd dim gwaith darbwylo Bryony Gittins pan gafodd y cyfle i ddychwelyd i'r fferm deuluol yn Llanddewi Nant Hodni ger y Fenni, lle magwyd hi, i helpu ei rhieni i redeg y fferm o ddydd i ddydd. Yn ei harddegau hwyr roedd hi a'i brodyr a'i chwiorydd wedi helpu ei rhieni i arallgyfeirio, gan sefydlu menter farchogaeth a merlota lwyddiannus ar y fferm.

A hithau wedi byw a gweithio y tu allan i'r diwydiant ers nifer o flynyddoedd, yn Llundain ac yn fwy diweddar yn y Gelli Gandryll, lle bu'n gweithio fel hyfforddwraig campau awyr agored, mae Bryony yn awr ar ymgyrch bersonol i ddwyn y fferm deuluol yn ôl i'w gogoniant ac ennill ei bywoliaeth fel ffermwraig lawn amser.

“Mae'r fferm wedi bod yn ein teulu ni ers dwy genhedlaeth yn barod, ac nid oeddwn am weld yr olyniaeth yn dod i ben.”

Er mwyn sicrhau bod y busnes yn cyflawni ei botensial eto - mae'n cynnwys 276 erw o dir ym Mharc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog gyda 100 erw arall ar rent - gwyddai Bryony bod rhaid iddi adnewyddu ei sgiliau ffermio a'i gwybodaeth, a dyna pryd y gwnaeth droi at Cyswllt Ffermio.

Mae ei rhieni Colin a Cordelia Passmore wedi bod yn graddol lacio eu gafael ar y ffermio o ddydd i ddydd ers nifer o flynyddoedd. Yn 2016 roeddent wedi rhoi eu buches o 60 o wartheg Henffordd pedigri i fyny i ganolbwyntio ar eu diadell gymysg o ddefaid Lley, Texel a Charollais, yr oeddent yn gobeithio fyddai'n llai trwm o ran gwaith.

Ond ar ôl penderfynu lleihau maint y ddiadell, fe wnaethant weld bod ganddynt broblem newydd. Roedd gormod o laswellt, a aeth yn fuan yn dir ffrwythlon i ysgall, danadl poethion a rhedyn.

“Fe wnaeth Dad fy nghynghori i gofrestru gyda Cyswllt Ffermio, ac yn fuan fe welais gymaint o arweiniad a chefnogaeth sydd ar gael, y rhan fwyaf ohono wedi ei ariannu'n llawn neu gyda chymhorthdal sylweddol.”

“Dwi'n cofio ymuno â chyrsgiau busnes Cyswllt Ffermio flynyddoedd yn ôl, pan wnaethom sefydlu'r fenter ferlota gyntaf, ac rwyf yn dal i ddefnyddio'r sgiliau hynny heddiw, felly doedd dim llawer o waith darbwylo arnaf.”

Yr hyn nad oedd Bryony yn ei ddisgwyl, oedd y gallwch chi ddysgu llawer o gysur eich cartref eich hun y dyddiau hyn os ydych wedi cofrestru gyda Cyswllt Ffermio. Gwelodd fanteision e-ddysgu am y tro cyntaf wedi iddi gwblhau cynllun datblygu personol ar-lein (PDP) a ddynododd ei chryfderau ond hefyd y bylchau yn ei gwybodaeth, ymunodd â chwrs lechyd a Diogelwch fferm ar-lein gan Cyswllt Ffermio. Mae hyn yn hanfodol os ydych yn bwriadu ymgeisio am hyfforddiant ymarferol a chyrsgiau peiriannau. Er mwyn tacllo mater y borfa wael ei hansawdd, fe wnaeth wedyn ymuno ag e-gyrsgiau ar systemau pori a rheolaeth glaswelltir yn gyffredinol.

“Mae'n ddyddiau cynnar, ond rwyf eisoes wedi dechrau defnyddio'r hyn yr wyf wedi ei ddysgu. Mae'r modiwlau yn pwysleisio pwysigrwydd cynnwys eich stoc mewn ardaloedd llai a'u cylchdroi i borfa ffres, felly rydym eisoes wedi dechrau eu torri'n llai trwy wella'r holl ffensys a'r pyst giatiaiu.”

Ymgeisiodd Bryony hefyd am gefnogaeth un i un trwy raglen fentora Cyswllt Ffermio. Mae Ben Anthony, ffermwr defaid profiadol o Sir Gaerfyrddin, a lwyddodd i wella perfformiad ei ddiadell ei hun trwy wella'r rheolaeth ar borfa trwy gnydau a phorthiant wedi eu tyfu

gartref, yn awr yn annog Bryony i ystyried rhai o'r systemau a'r rhywogaethau o laswellt y mae ef wedi eu profi ei hun.

Mae gan Bryony a'i thad 500 o famogiaid yn mynd at yr hwrdd eleni, gyda 150 yn ymuno â nhw'r flwyddyn nesa, ac mae'n bwriadu cynyddu niferoedd y stoc mewn rhaglen ehangu gyson.

“Rwyf yn gweld dyddiau agored Cyswllt Ffermio yn ddefnyddiol dros ben, ac yn ychwanegol at weld beth sy'n gweithio orau i ffermwyr eraill, rwyf wedi dysgu cymaint hefyd am bynciau yn amrywio o ymwrthedd i driniaeth llyngyr mewn defaid hyd at reoli porfa,” dywedodd Bryony. Yn ddiweddar llwyddodd i gael ei thystysgrifau PA1 a PA6 pleiddiaid, a gyllidwyd trwy gwrs hyfforddi Cyswllt Ffermio.

Daeth y fenter farchogaeth i ben rai blynyddoedd yn ôl, ond mae Bryony eisoes yn sôn am y dyfodol a'r cyfleoedd am ffrwd incwm newydd

“Os cawn ni'r tir a'r stoc yn perfformio ar eu gorau eto does wybod beth ddaw wedyn!”



Am ragor o wybodaeth am sgiliau a mentora, ewch i www.gov.wales/cyswlltffermio

Farming Connect is funded by the Welsh Government and the European Agricultural Fund for Rural Development.

Adroddiad Terfynol ar Astudiaeth Porthi Defaid ar Fyrnau Crwn Cae Haidd

Âr gaeaf yn nesu yn gynt nag y byddai'r rhan fwyaf ohonom yn ei ddymuno, yn fuan bydd llawer ohonoch yn meddwl am eich patrwm porthi i baratoi at y cyfnod wyna'r flwyddyn nesaf.

Mae porthi byrnau mawr mewn porthwyr crwn yn ddull cyffredin, ac fel rhan o'r prosiect a gynhaliwyd yng Nghae Haidd y gwanwyn diwethaf fe wnaethom geisio ateb dau gwestiwn.

1. Faint o silwair sy'n cael ei wastraffu naill ai oherwydd bod ei ansawdd yn dirywio neu ddim yn cael ei fwyta oherwydd ei fod yn cael ei lusgo allan o'r porthwr a'i sathru yn y pridd o'i gwmpas?
2. A oes digon o silwair ar gael i fodloni gofynion maethol disgwylidig y mamogiaid cyfeb?

DULL

Sefydlwyd dau grwp o famogiaid, un o 30 a un o 60, a gafodd eu cyfateb yn ôl cyfnod y beichiogrwydd a'u brîd gyda phwysau byw ar gyfartaledd o 65kg. Porthwyd cyfanswm o 5 o fyrnau i bob grŵp yn olynol gan ddechrau yn Ionawr 2017. Yn union ar ôl eu hagog, pwyswyd y byrnau a chymerwyd sampl o'r silwair (i gael dadansoddi NIR). Yna cymerwyd samplau o'r silwair yn ddyddiol bron o'r tu mewn i'r porthwr crwn nes nad oedd digon ar ôl ac i fwrn newydd gael ei borthi gyda'r un patrwm sampl. Hefyd, bron yn ddyddiol roedd y silwair a wastraffwyd o'r tu allan i'r porthwr yn cael ei symud oddi yno, ei bwysu a'i samplu (dadansoddi NIR). Yn ychwanegol roedd is-sampl o bob sampl yn cael ei sychu yn y popty i gael asesiad cywir o'r %DM. Mesurwyd y tymheredd yn y byrnau hefyd i asesu gwastraff aerobig y silwair.

CANLYNIADAU

Dangosir cymedr y dadansoddiad i'r 5 o fyrnau/grŵp a phwysau'r byrnau yn Nhabl 1. Hefyd yn y tabl mae'r nifer cymedr o ddyddiau yr oedd pob un o'r byrnau wedi eu porthi a gyda phwysau'r byrnau, %DM a maint y grŵp cyfrifwyd cymedr faint o DM silwair a gymerwyd, yn hyn o beth tybiwyd bod yr holl silwair yn y byrnau wedi ei fwyta.

Tabl 1: canlyniadau ar gyfartaledd o ran pwysau, ansawdd maethol ac uchafswm posibl yr hyn y gallai pob mamog ei fwyta.

	30 Mamog	60 Mamog
Dyddiau Bwydo	8.25	4.25
% DM	37.9	47.6
Gwerth D (%)	59.1	57.5
ME (MJ/Kg DM)	9.45	9.2
Protein Crai (% DM)	11.24	11.01
NDF (%DM)	49.72	49.66
ADF (%DM)	31.03	31.18
WSC (%DM)	3.38	4.84
Ash (%DM)	6.62	6.32
pH	4.54	4.75
Bwrn (Pwysau Ffres Kg)	635	621
Bwrn (Pwysau Sych Kg)	240.7	295.6
Cyfanswm pwysau sydd wedi'i fwyta/diwrnod/mamog kg/DM/mamog	0.97	1.16


Ar ôl ystyried y silwair a wastraffwyd (gweler Tabl 2), yna mae'n glir gweld ei fod yn cael effaith sylweddol ar faint y mae pob mamog yn ei fwyta o DM y dydd.

Tabl 2 Syniad o'r kg DM a gollwyd, y % o'r byrnau a gollwyd a chyfanswm y DM silwair a gymerwyd gan bob mamog y dydd

	30 Mamog	60 Mamog
Kg DM silwair a wastraffwyd	69.38	56.33
Kg DM a wastraffwyd i bob mamog	2.31	0.94
% DM a wastraffwyd	29.38	20.99
Cyfanswm kg y famog y dydd a gymerwyd	0.69	0.86

O ran maethiad y mamogiaid roeddent yn bwyta 28.9% a 25.9% yn llai o DM silwair nag y byddid yn ei ddisgwyl heb unrhyw golledion. Mae'n annhebygol bod hyn yn digwydd yn gyfartal o ddydd i ddydd ac o famog i famog. Mae'n debyg bod rhai mamogiaid yn y grŵp ar rai dyddiau ar ôl porthi yn debygol o fwyta llawer llai a'r mamogiaid yma yw'r rhai sydd wedyn yn debygol o golli eu hŵyn neu gynhyrchu llai o laeth ar ôl wyna ac felly yn cynhyrchu wŷn sy'n tyfu ar raddfa arafach.

Os defnyddir y ffigurau safonol o £120 i gynhyrchu tunnell o DM silwair a chyfartaledd pwysau byrnau o 268kg o DM i bob un o'r byrnau yna mae pob un yn costio £32.16 i'w chynhyrchu. Mae'r colledion DM i bob un o'r byrnau yn cyfateb i £9.45 a £6.75 o werth ariannol i bob un o'r byrnau yn y grŵp o 30 a 60 yn eu tro. Mae'n golygu hefyd bod angen cynhyrchu tua 30% a 21% yn fwy o silwair nag sy'n cael ei ddefnyddio gyda'r golled gysylltiedig o ran tir cynhyrchiol i fentrau eraill a'r ôl troed carbon sy'n gysylltiedig â'r colledion yma.



Mae Ffigwr 1 yn dangos cyfanswm y colledion dyddiol dros y cyfnod porthi. Mae'r data yn dangos bod y grŵp o 30 yn colli llai ar ddiwrnod 1 na'r grŵp o 60 ond oherwydd y cyfnod hwy yn bwyta roedd y colledion yn fwy yn y pen draw.

DS. Dim ond y 4 diwrnod cyntaf a ddangosir ar y graff, oedd yn cynrychioli'r rhan fwyaf o'r cyfnod porthi i'r grŵp 60 ond roedd angen cyfartaledd o 4 diwrnod arall i'r grŵp o 30.

Gwerthiant llaeth crai yn sicrhau dyfodol fferm deuluol

Mae peiriant yn gwerthu llaeth amrwd sy'n cael ei gynhyrchu gan un o'r buchesi o wartheg Ayrshire pedigri olaf yn Ne Ddwyrain Cymru wedi helpu i sicrhau dyfodol y fuches.



Peiriant gwerthu llaeth crai ar Fferm Gelli

Bu bron i Robert a Kath Granville orfod roi'r gorau i'w busnes pan syrthiodd pris eu llaeth i lawr i 9.75c y litr. Bu'r posibilrwydd o golli buches Gelligaredig, yr oedd teulu Robert wedi ei sefydlu ar Fferm Gelli yn 1945 yn ysgogiad i ail-feddwl.

Gyda chefnogaeth gan Swyddog Datblygu Cyswllt Ffermio, Catherine Smith, fe wnaethant gofrestru gyda Cyswllt Ffermio a chael cyngor Cynllunio Busnes gan Russell Thomas o Kite Consulting, a ariannwyd trwy Wasanaeth Cyngori Cyswllt Ffermio.

Fe wnaethant ymchwilio i botensial gwerthu llaeth crai yn uniongyrchol oddi ar y fferm. "Roedd Russell yn gweld bod marchnad ar gyfer yr hyn oedd gennym mewn golwg ac roedd y cynllun busnes yn dangos y gallem wneud iddo weithio gyda'r nifer o wartheg oedd gennym," dywedodd Kath.

Ar ôl cyfres o brofion gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd, rhoddwyd trwydded iddynt werthu llaeth crai ar eu fferm yng Nghefn Cribwr, ger Pen-y-bont ar Ogwr.

Buddsoddodd y cwpl £14,100 mewn

peiriant gwerthu, sefydlu ardal adwerthu wrth giât y fferm ac agor y busnes.



Gwerthwyd **55 LITR** ar gyfartaledd ers hynny gyda chwsmeriaid o fewn cylch o 30 milltir yn talu **£1.20 am litr o laeth** neu **£2.20 am ddau litr**

mewn cymhariaeth â'r **18 ceiniog y litr** y maent yn ei dderbyn am werthu llaeth o'r tanc. Mae'r llaeth hwnnw yn cael ei werthu yn ffres o'r peiriant gwerthu bob dydd.

Bu marchnata yn bwysig a dyna lle mae tair merch y cwpl, Mary-Jayne, Beth a Kate, wedi cefnogi'r fenter. "Mae'r merched wedi bod yn ffantastig, maent wedi cymryd gofal o'r ochr cyfryngau cymdeithasol," dywed Kath.

"Mae'r fferm yn bwysig iawn iddynt ac er eu mwyn hwy yr ydym wedi ymladd i gadw'r busnes i fynd."

Gwasanaeth Cyngori Cyswllt Ffermio
08456 000 813



"Mae'r cytundeb yma wedi symud y pwysau oddi arnom yn gorfforol a meddyliol."

Rhys Richards 28 oed yn profi sut y gall cydweithio rhwng ffermwyr fod yn fanteisiol i bawb

Trwy ffermio mewn partneriaeth gyda'r brodyr Nick a David Nichols, sy'n cadw 60 o fuchod magu croes Limousin a chroes Simmental ar system organig ar fferm 320 erw Gwernant, ger Rhydlewis, Llandysul mae Rhys wedi gwireddu ei uchelgais o gamu i'r byd amaethyddol.

Gyda chymorth gan 'Mentro', fe wnaethant lunio cytundeb sy'n rhoi tŷ i Rhys ar y fferm ac incwm ac, ymhen pum mlynedd o ddechrau'r cytundeb, bydd wedi cael perchenogaeth ar ganran o'r da byw. I'r brodyr, mae'n golygu eu bod yn gallu dirprwyo llawer o'u cyfrifoldebau i Rhys.

"Doedden ni ddim am werthu'r fferm ond roeddem yn gweld y gwaith corfforol yn fwy anodd. Mae'r cytundeb yma wedi symud y pwysau oddi arnom yn gorfforol a meddyliol," dywedodd David.

"Roeddem yn falch iawn o roi'r cyfle i newydd-ddyfodiad i ffermio. Mae gan Rhys fudd uniongyrchol yn y cynnyrch ac felly mae cymhelliad iddo gadw'r fuches yn dda."

Mae Rhys yn cyflawni'r disgwyliadau. "Cawsom gyfnod lloea ardderchog y gwanwyn hwn heb unrhyw gollledion," dywedodd Nick.

Mae'r cytundeb wedi golygu gostyngiad yn incwm y brodyr ond am hynny mae Rhys yn gwneud y rhan fwyaf o'r gwaith corfforol a'r gwaith papur. "Mae'n ymddangos yn fargen resymol i ni," meddai Nick.



Bwriad Mentro yw cyfateb newydd-ddyfodiad â ffermwyr sydd wedi sefydlu gan roi cefnogaeth ac arweiniad i sefydlu menter ar y cyd.

I ddarllen yr erthygl lawn neu i ddsygu rhagor am sut y gall menter ar y cyd fod yn ddewis addas i'ch busnes chi, ewch i wefan Cyswllt Ffermio, anfonwch e-bost at einir.davies@menterabusnes.co.uk neu ffoniwch **01970 636 297**.

businesswales.gov.wales/farmingconnect/venture

Amserlen Digwyddiadau

DYDDIAD	DIGWYDDIAD	LLEOLIAD	CYSWLLT
27-28 /11/17	Gweithdai Cyfleusterau Diogel Trin Gwartheg 10.30 / 11.30 / 13.30 / 14.30	Stondin Lantra, Y Ffair Aeaf, Llanelwedd, LD2 3WY	Sarah Lewis 01982 552 646 sarah.lewis@lantra.co.uk
05/12/17 19:00-21:00	Brechu i gynyddu proffidioldeb eich uned ddofednod	The Royal Oak Hotel, The Cross, Y Trallwng, Powys, SY21 7DG	Jodie Roberts 07898 996 841 jodie.roberts@menterabusnes.co.uk
06/12/17 09:00-17:00	Cymhorthfa Marchnata ac Arallgyfeirio	Y Trallwng (lleoliad i'w gadarnhau gyda apwyntiad)	Gwenan Jones 01970 636 296 gwenan.jones@menterabusnes.co.uk
06/12/17 09:00-17:00	Cymhorthfa Olyniaeth	Rhuthun (lleoliad i'w gadarnhau gyda apwyntiad)	Gwenan Jones 01970 636 296 gwenan.jones@menterabusnes.co.uk
06/12/17 09:00-17:00	Cymhorthfa Gynllunio	Aberystwyth (lleoliad i'w gadarnhau gyda apwyntiad)	Gwenan Jones 01970 636 296 gwenan.jones@menterabusnes.co.uk
06/12/17 19:00-21:00	Cynllun Gwaredu BVD	Marchnad Rhuthun, Stad Ddiwydiannol Ffordd Dinbych, Parc Glasdir, Rhuthun LL15 1PB	Emyr Wyn Owen 07932 610 697 emyr.owen@menterabusnes.co.uk
08/12/17 09:00-17:00	Cymhorthfa Olyniaeth	Bangor (lleoliad i'w gadarnhau gyda apwyntiad)	Gwenan Jones 01970 636 296 gwenan.jones@menterabusnes.co.uk
11/12/17 14:00-16:30	Canllaw i aeafu defaid a gwartheg allan ar fetys porthiant a cêl	Carwed Fynydd, Dinbych, Conwy, LL16 5EH	Emyr Wyn Owen 07932 610 697 emyr.owen@menterabusnes.co.uk
12/12/17 19:30-21:30	Canolbwyntio ar rawn - Perfformiad ffynгалaddwyr; ffermio ar gyfraddau amrywiol a diweddariad y farchnad	The Pavillion, County Showground, Wityhush, Hwlfordd, SA62 4BW	Dr Delana Davies 07811 261 628 delana.davies@menterabusnes.co.uk
12/12/17	Cymhorthfa Olyniaeth 09:00 - 17:00	Pont-y-pŵl (lleoliad i'w gadarnhau gyda apwyntiad)	Gwenan Jones 01970 636 296 gwenan.jones@menterabusnes.co.uk
13/12/17		Aberystwyth (lleoliad i'w gadarnhau gyda apwyntiad)	
13/12/17	Cynllun Gwaredu BVD 19:00 - 21:00	Tafarn y Rhos, Rhostrehwfa, Llangefni LL77 7YU	Emyr Wyn Owen 07932 610 697 emyr.owen@menterabusnes.co.uk
18/12/17		Nanhoron Arms, Ffordd Dewi Sant, Nefyn, LL53 6EA	
20/12/17		Eagles Hotel, Llanrwst, Conwy, LL26 0LG	